**Rhif: WG39203**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi | : | 17 Hydref 2019 |
| Camau i'w cymryd | : | 16 Ionawr 2020 |

.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cynigion ar gyfer categoreiddio, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru yn y dyfodol. |
| **Sut i ymateb** | Cwblhewch y ffurflen ar-lein, neu cwblhewch a dychwelwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen hon. Dylid dychwelyd yr holiadur I CwnsleriaidDeddfwriaethol@llyw.cymru |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>e-bost: CwnsleriaidDeddfwriaethol@llyw.cymru<br><br>rhif ffôn: 0300 025 0375 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi, codeiddio

## Cynnwys


Rhagair gan y Cwnsler Cyffredinol ........ 6

Trosolwg ........ 7

Pennod 1: Cyd-destun ........ 9

Pennod 2: Categoreiddio cyfraith Cymru ........ 16

Pennod 3: Cydgrynhoi cyfraith Cymru ........ 18

Pennod 4: Codeiddio cyfraith Cymru ........ 26

Pennod 5: Cyfathrebu ac egluro cyfraith Cymru ........ 32

Atodiad A ........ 34

Atodiad B ........ 38

Atodiad C: Ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad ........ 45

## Rhagair gan y Cwnsler Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol iawn o'i chyfrifoldebau fel ceidwad cyfraith Cymru. Mae 'llyfr statud' y Deyrnas Unedig yn eang ac yn anhygyrch, a'n bwriad, wedi gallu datblygu ein cyfreithiau ein hunain ers rhai blynyddoedd bellach, yw gwneud pethau'n wahanol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn hawdd – ac ni fydd yn digwydd yn gyflym. Bydd ein tasg yn cymryd cenhedlaeth a mwy i'w chyflawni'n llawn; ond mae'n rhaid i ni ddechrau, a dechrau fel yr ydym yn golygu mynd ymlaen.

Mae'r ddogfen hon, yn gyntaf, yn weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Dyfodol lle mae'r holl gyfreithiau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn trefn, yn hawdd i'w llywio, ar gael ar ffurf gyfoes ac mor ddealladwy ag y mae cymhlethdod y cynnwys yn caniatáu. I gyflawni hyn mae angen ailwampio'r llyfr statud drwy gydgrynhoi'r gyfraith bresennol ac, unwaith ei fod mewn trefn, dylid ei godeiddio gyda'r bwriad o gadw'r gyfraith mewn trefn. Mae hefyd yn golygu gwella'r ffordd rydym yn cyhoeddi deddfwriaeth a darparu deunydd esboniadol am ddeddfwriaeth.

Pwrpas y ddogfen hon hefyd yw disgrifio sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno. Felly rydym yn pennu'r hyn a olygwn wrth gydgrynhoi, yr hyn a olygwn wrth godeiddio ac yn amlinellu prosiectau eraill a fydd yn cyfrannu at ein nod.

Dylwn bwysleisio hefyd, er inni roi llawer o ystyriaeth i'r materion hyn dros flynyddoedd lawer, a'n bod wedi gweithio ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith a'r Senedd ar sawl agwedd o'r hyn a cynigir, nid ydym yn proffesu fod gennym fonopoli ar syniadau da. Mae hyn yn cael ei wneud er budd defnyddwyr deddfwriaeth – yn bwysicaf oll dinasyddion Cymru – ac rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau a fyddai'n ein helpu i wireddu ein gweledigaeth.

**JEREMY MILES AC/AM**
**Cwnsler Cyffredinol Cymru**

## Trosolwg

1. Bu diffyg hygyrchedd y gyfraith ar draws y Deyrnas Unedig, ac yn arbennig yng Nghymru, yn destun llawer o drafod a dadansoddi dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o' r broblem ers blynyddoedd lawer ac mae wedi bod yn cymryd camau (er yn gyfyngedig) i wella hygyrchedd i gyfraith Cymru er 2011.

2. Yn ddiweddar, mae'r Senedd wedi deddfu i ymrwymo'r Llywodraeth i weithredu. Diben **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** yw gwneud cyfraith Cymru’n fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

3. Rydym yn esbonio'r **cyd-destun** – y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy a'r camau a gymerwyd hyd yn hyn – yn fanylach ym **Mhennod 1**.

4. Rydym eisoes wedi cyhoeddi Tacsonomi Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru – mae hwn yn pennu strwythur arfaethedig ar gyfer system o ddeddfwriaeth wedi'i chodeiddio. Bydd y strwythur hwn yn cynnwys **categoreiddio**’r gyfraith yn unol â phwnc ei chynnwys a fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer gwaith ychwanegol i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Ailedrychir ar y strwythur amlinellol yn y papur hwn ac am phennir system arfaethedig ar gyfer dosbarthu'r gyfraith. Mae hwn i'w weld ym **Mhennod 2** ac **Atodiadau A a B**.

5. **Cydgrynhoi**'r gyfraith bresennol fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at sicrhau fod y gyfraith yn hygyrch, ond mae hon yn broses sy'n aml yn gymhleth a bydd yn cymryd amser – degawdau – i'w chwblhau. Rydym yn edrych ar y broses o gydgrynhoi’n fanylach ym **Mhennod 3**, gan edrych yn benodol ar yr hyn y gellir ei gynnwys mewn Bil cydgrynhoi.

6. Os yw cydgrynhoi’n arfer o ddod â trefn i'r llyfr statud, wedi i ni lwyddo i gael trefn mae rhaid ei gynnal. Dyma pam fod Llywodraeth Cymru o’r farn fod **codeiddio** deddfwriaeth mor bwysig. Yn ei hanfod mae codeiddio’n broses ddisgyblaeth sydd wedi ei gynllunio i sicrhau nad yw strwythur (ond nid, wrth gwrs, cynnwys) y llyfr statud ddiwygiedig yn newid heb gyfiawnhad. Ystyrir hyn ymhellach ym **Mhennod 4**.

7. Er mwyn manteisio ar fudd cydgrynhoi a chodeiddio, ac yn wir i wella hygyrchedd yn fwy cyffredinol, mae angen i ddeddfwriaeth gael ei hategu gan well **cyfathrebu** ynghylch ei effaith a, lle y bo angen, eglurhad pellach o'i ystyr. Felly, rhaid cyhoeddi deddfwriaeth yn fwy effeithiol ac atodi deunydd esboniadol pellach fel y

bo'n briodol. Gan fod cydgrynhoi'r gyfraith yn broses faith iawn sy'n defnyddio adnoddau'n ddwys, mae angen dechrau cyfathrebu gwell yn awr a pharhau i'w wella wrth i ni ddechrau dod a threfn i'r llyfr statud. Ein mecanweithiau ar gyfer gwneud hyn fydd gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales a gwefan legislation.gov.uk. Edrychir ar hyn yn fanylach ym **Mhennod 5**.

8. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ac ar wahanol adegau yn y papur rydym yn gofyn cwestiynau penodol. Ceir crynodeb o'r ymgynghoriad hwn yn **Atodiad C**. Rydym yn bwriadu defnyddio'r atebion i fireinio ein dull o godeiddio a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

## Pennod 1: Cyd-destun

### *Diffyg hygyrchedd y gyfraith*

9. Mae pryderon wedi'u mynegi ers blynyddoedd lawer am gymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig (DU) a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud anferth a gwasgarog. Mae’n broblem a achosir nid yn unig gan nifer enfawr ein deddfau sylfaenol ac eilradd (a’r lled-ddeddfwriaeth cysylltiedig), ond hefyd am fod y ddeddfwriaeth honno wedi'i diwygio, ei hail-ddiwygio a’i hail-wneud mewn ffyrdd anghyson dros amser. Mae'r arfer hwn yn creu haenau o ddeddfwriaeth a all fod yn perthyn neu'n gyd-gysylltiedig mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan wneud y tirlun deddfwriaethol yn anodd iawn i gyfreithwyr lywio heb sôn am ddinesydd yr effeithiwyd arno.

10. Mae natur cyfansoddiad y DU, ynghyd â'r broses o ddatganoli pwerau, yn cymhlethu'r llyfr statud ymhellach. Mae'r problemau'n arbennig o ddifrifol yng Nghymru. Er fod y sefyllfa'n newid yn gyflym, a bod corff cynyddol o gyfreithiau wedi'i wneud gan Senedd a Gweinidogion Cymru[1], mae'r rhan fwyaf o'r cyfreithiau sy'n gymwys i Gymru hefyd yn gymwys o hyd i Loegr neu i Brydain Fawr neu'r DU gyfan. Rydym wedi etifeddu y rhan fwyaf o’n cyfreithiau gan Senedd y DU, ac felly nid ydynt, ar y cyfan, yn adlewyrchu sefyllfa wleidyddol a chyfansoddiadol y genedl fel y mae heddiw.

11. Yn ogystal, mae penderfynu lle y tynnir y llinell rhwng mater sydd wedi'i ddatganoli a mater nad yw'n un, gryn dipyn yn anos yng Nghymru nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon oherwydd ein trefniadau mwy cul a chymhleth. Mae'r dull cynyddrannol a thameidiog o ddatganoli pŵer wedi arwain at ddryswch o ran pwy sy’n gyfrifol. Fel enghraifft amlwg, mae llawer o’r pwerau a roddwyd i’r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddfau Seneddol bellach wedi’u trosglwyddo i Weinidogion Cymru, ond nid yw hyn yn amlwg yn gyffredinol o eiriad y deddfau eu hunain gan olygu felly ei bod yn ymddangos fod pŵer yn parhau i orwedd gyda’r Ysgrifennydd Gwladol.

12. Bydd ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd (UE) yn debygol o ddwysáu'r broblem hon. Bydd yr arfer o ymgorffori cyfraith a gynlluniwyd fel cyfraith ryngwladol, ac sy’n seiliedig yn bennaf ar greu’r farchnad sengl, fel cyfraith ddomestig yn gwaethygu’r broblem o gyfraith anhygyrch. Bydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn troi corff mawr o gyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig wrth ymadael, ac yn galluogi is-ddeddfwriaeth i ddiwygio’r gyfraith honno fel y gall weithredu’n briodol y tu allan i’r UE. Bydd angen deddfwriaeth arall hefyd mewn cysylltiad â’r ymadawiad o’r UE, ac mae’r sefyllfa derfynol yn parhau’n aneglur, yn enwedig gan fod llawer yn dibynnu ar natur perthynas y DU

---

[1] Er gwaethaf eu bodolaeth gymharol fyr fel deddfwrfa a Llywodraeth, mae'r Senedd wedi pasio 63 o fesurau neu ddeddfau ers 2007 ac mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud dros 6,000 o offerynnau statudol ers 1999 – er bod hyn yn cynrychioli ffracsiwn o lyfr statud y DU

â’r UE yn y dyfodol. Bydd angen cymryd camau pellach i resymoli’r gyfraith, ond bydd sut y gwneir hynny’n dibynnu ar y graddau y mae safonau Ewropeaidd yn cael eu cadw.

### ***Effeithiau andwyol cyfraith anhygyrch***

13. Er nad yw'r union gostau ariannol sy'n gysylltiedig â chyfraith anhygyrch yn hysbys, mae’n amlwg o natur y problemau a achosir gan gyfraith anhygyrch fod costau i’r economi gyfan. Mae cyfraith anhygyrch yn cynyddu’r gost o ddeall y gyfraith drwy gynyddu’r amser a’r adnoddau sydd eu hangen i ymchwilio a chymhwyso’r gyfraith; nid yn unig i gyfreithwyr mewn practis preifat, neu sy’n gweithio’n fewnol yn y sector cyhoeddus neu breifat, ond hefyd i fusnesau a dinasyddion a allai ei chael yn amhosibl – neu o leiaf yn anghymesur o ddrud – i gyrchu'r gyfraith yn uniongyrchol. At hynny, oherwydd y cyfyngiadau amser ac adnoddau, gall cyfraith anhygyrch arwain at ddadansoddiad a chyngor cyfreithiol cyfyngedig neu anghywir. Gall hyn yn ei dro gael effaith andwyol, nid yn unig ar y busnesau sy'n dibynnu ar eu dadansoddiad eu hunain neu ar gyngor cyfreithiol ond hefyd, yn y pen draw, ar system y llysoedd; y cyrff fydd yn gorfod datrys anghydfodau sy'n deillio o'r gwallau hyn. Byddai gwella hygyrchedd y gyfraith yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'r materion hyn ac o fudd i bobl Cymru.

14. Yn fwy arwyddocaol mwy na thebyg, fodd bynnag, yw cost cymdeithasol y sefyllfa bresennol. Mae gallu dod o hyd i’r gyfraith a’i deall yn weddol rhwydd yn hanfodol er mwyn i ddinasyddion allu mwynhau’r manteision, a pharchu’r rhwymedigaethau, y mae’r gyfraith yn eu rhoi iddynt neu’n gosod arnynt. O gofio fod mynediad at gyfiawnder ac yn arbennig cyngor cyfreithiol a ariennir gan y wladwriaeth, dan fath fygythiad, mae sicrhau fod gan bobl gyfle teg i ddeall y gyfraith yn hanfodol. Mae’n mynd at galon cenedl a lywodraethir gan reolaeth y gyfraith.

### ***Y camau a gymerwyd hyd yn hyn i wella cyfraith Cymru***

*Diwygio cyfraith Cymru*

15. Oherwydd fod llawer o gymhlethdod y gyfraith yn deillio o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r bedair rhan o'r DU yn cael eu cydblethu, un o'n nodau wrth ddeddfu yw datblygu cyfraith sy’n sefyll ar wahân ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn mor syml ag y mae’n ymddangos. Gall hyd llawer o ddeddfiadau, a’r nifer uchel o ddeddfiadau sy’n bodoli’n aml ar unrhyw bwnc penodol, ei gwneud yn anymarferol. Y rheswm am hyn yw taw dim ond newidiadau cymharol fach ac hunangynhwysol i ddeddfwriaeth sydd ei angen yn aml er mwyn gwireddu cynigion polisi ar gyfer diwygio’r gyfraith. Mewn achos o’r fath, mae bron wastad yn llawer haws diwygio’r gyfraith bresennol, yn hytrach na dechrau creu cyfraith gwbl newydd i Gymru sy’n sefyll ar wahân.

16. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cyfuno nifer o gynigion ar gyfer diwygio deddfwriaeth gyda’r nod o wneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Yn gyffredinol, gellir gwneud hyn mewn dau amgylchiad: yn gyntaf, lle mae nifer y newidiadau i’r gyfraith a gynigir, ac ehangder eu cynnwys, yn golygu fod dechrau gyda dalen lân o bapur yn symlach na newid y gyfraith bresennol; ac, yn ail, lle mae pwnc y gyfraith sy’n cael ei newid ynddo’i hun yn gymharol gul (ac felly â llai o gynnwys).

17. Enghraifft o ddeddfwriaeth a oedd yn hir ac yn eang ei heffaith yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Gweithredu cynigion o fewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith a gyhoeddwyd gyntaf yn 2006[2] a wnaeth y Ddeddf hon. Gwahaniaethodd y Ddeddf â Bil gwreiddiol Comisiwn y Gyfraith mewn nifer o ffyrdd, ond cadwodd y prif bwyntiau arloesol megis rhagnodi darpariaethau craidd yn ymwneud â’r berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid y mae’n rhaid eu cynnwys mewn contractau. Yn gyffredinol diben y Ddeddf yw ei gwneud yn symlach ac yn haws i rentu cartref, gan ddisodli’r darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth tenantiaeth bresennol gydag un fframwaith cyfreithiol clir. Mae’r fframwaith hwnnw’n benodol i Gymru sy’n golygu ei fod felly’n bwrpasol ac yn ddwyieithog.

18. Mae enghraifft debyg ym maes gofal cymdeithasol. Rhyngddynt, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 (sy’n seiliedig yn rhannol eto ar adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cynnwys y gyfraith ar ofal cymdeithasol yng Nghymru bron yn ei gyfanrwydd. Ni chafodd yr holl gyfraith hon ei diwygio ond golygodd maint y newid yn y gyfraith mai’r dull synhwyrol oedd ailddatgan y meysydd hynny o’r gyfraith nad effeithiwyd arnynt. Unwaith eto roedd gan hyn y fantais o osod y gyfraith yn gliriach, yn ddwyieithog ac o fewn cyd-destun cydlynus.

*Ail-ddatgan cyfraith Cymru*

19. Fel y cyfeirir uchod, mae "ail-ddatgan" y gyfraith yn gysyniad pwysig. Yn ein cyd-destun ni, mae hyn yn golygu bod darpariaethau deddfwriaethol sy’n gysylltiedig â darpariaethau deddfwriaethol eraill sy’n cael eu diwygio’n cael eu hail-lunio o fewn cyd-destun Cymreig newydd. Mae gwneud hyn yn golygu datgymhwyso’r darpariaethau gwreiddiol (naill ai drwy eu diddymu neu ar yr amod nad ydynt bellach yn gymwys i Gymru), eu hail-ddrafftio (yn ddwyieithog) mewn arddull fodern a’u hail-greu ar y cyd â’r gyfraith sydd wedi’i newid.

20. Efallai mai’r enghraifft orau ac amlycaf o’r arfer hwn oedd ein dull o newid y gyfraith ar gydsynio i roi organau. Cyn ei ddiwygio i Gymru roedd y gyfraith ar ddefnyddio organau wedi’i chynnwys yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004, sy’n

---

[2] Ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei bwriad i weithredu Bil Comisiwn y gyfraith, cyhoeddodd Comisiwn y gyfraith yr adroddiad "rhentu cartrefi yng Nghymru" (Rhif y gyfraith 337) yn 2013, a diweddarodd yr adroddiad gwreiddiol ac a ymdriniodd â materion ychwanegol sy ' n benodol i Gymru

rheoleiddio’r gyfraith ar ddefnyddio rhannau o’r corff dynol at 15 o ddibenion gwahanol. Mae’r Ddeddf hon yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O safbwynt y Cwnsleriaid Deddfwriaethol hynny oedd â’r dasg o ddrafftio’r newid yn y gyfraith, byddai diwygio’r ddeddfwriaeth bresennol hon wedi bod yn waith symlach. Fodd bynnag, byddai hyn hefyd wedi golygu gwneud darpariaethau newydd wedi’u haddasu ar gyfer Cymru o fewn fframwaith sydd hefyd yn berthnasol y tu allan i Gymru. Y canlyniad fyddai fod y Bil a fyddai’n hyrwyddo’r newid, a’r ddeddfwriaeth a ddiwygiwyd yn y pen draw, wedi bod yn anos i eraill ei deall. O ganlyniad gwnaed y penderfyniad i ail-ddeddfu (ar gyfer Cymru’n unig, ac yn ddwyieithog) yr holl gyfraith ar gydsynio i ddefnyddio organau at ddibenion trawsblannu’n unig. Roedd hyn yn golygu creu pedair adran newydd (yn nodi’r newid yn y gyfraith) ac ail-ddatgan 26 o adrannau (a oedd yn cynnwys y cyd-destun ar gyfer y newid y gyfraith) yn Neddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

21. Enghraifft nodedig arall, sydd efallai’n gyfuniad o’r ddau ddull y cyfeirir atynt uchod, oedd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Dechreuodd y Bil Aelod hwn fel cynnig i wneud chwe newid o sylwedd i’r gyfraith bresennol, a oedd yn gymwys i Gymru a Lloegr. Er na fyddai’r newidiadau hynny wedi cyfiawnhau ail-ddeddfu’r holl gyfraith (h.y. nid oedd y newid cyfreithiol arfaethedig yn bellgyrhaeddol), diwygiwyd y gyfraith bresennol gynifer o weithiau (gan gynnwys nifer o ddarpariaethau a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig), roedd eisoes yn gymhleth. Gwnaed penderfyniad, felly, gan y Llywodraeth i newid y Bil fel y byddai’n diwygio ac yn ail-ddatgan yr holl ddeddfwriaeth ar gartrefi symudol yng Nghymru. Roedd hon yn broses heriol a mwy dwys o ran adnoddau ond yn y diwedd roedd y gyfraith yn llawer cliriach na’r hyn a fyddai fel arall.

*Prosiectau Comisiwn y Gyfraith*

22. Creodd Deddf Comisiynau y Gyfraith 1965 ddau Gomisiwn, un gyda'r dasg o gadw cyfraith Cymru a Lloegr dan adolygiad ac un â'r un cyfrifoldeb am yr Alban. Nodau Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr yw:

- sicrhau fod y gyfraith mor deg, modern, syml ac mor gost-effeithiol â phosibl,
- cynnal ymchwil ac ymgynghori er mwyn gwneud argymhellion systematig i'w hystyried gan Senedd y Deyrnas Unedig, a
- codeiddio'r gyfraith, dileu anghysonderau, diddymu deddfiadau diangen a lleihau'r nifer o statudau ar wahân.

23. Cafodd Deddf 1965 ei diwygio’n ddiweddar i ddarparu (ymhlith materion eraill) mecanwaith newydd i Weinidogion Cymru gyfeirio materion i’r Comisiwn (rhywbeth a oedd wedi’i reoli’n flaenorol gan yr Arglwydd Ganghellor).

24. Ar gais Llywodraeth Cymru, roedd deuddegfed rhaglen diwygio’r gyfraith y Comisiwn wedi cynnwys prosiect yn ystyried "Ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy’n

gymwys yng Nghymru". Wrth wraidd adroddiad y Comisiwn (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016), ac yn ganolog i'r dasg o wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch, yw'r angen i atgyfnerthu ac wedyn codeiddio cyfraith Cymru. Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith 32 o argymhellion ac y mae bron bob un ohonynt wedi'u derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr angen i gynnal rhaglenni rheolaidd i gydgrynhoi a chodeiddio. Dylanwadodd yr adroddiad ar y broses o ddatblygu Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a gaiff ei hystyried yn fanylach isod.

25. Roedd uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfr statud y dyfodol eisoes yn glir, ond roedd cymorth Comisiwn y Gyfraith yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn craffu ar yr hyn a oedd yn cael ei gynnig. Gwnaed hyn gan ddefnyddio gwybodaeth dechnegol y Comisiynwyr a'u swyddogion, a thrwy ymgynghori â'r proffesiwn cyfreithiol ehangach ac eraill sy'n defnyddio deddfwriaeth.

26. Yn ogystal, gall Comisiwn y Gyfraith ddarparu, neu alw ar arbenigedd penodol ar unrhyw bwnc i gynorthwyo Llywodraeth Cymru. Mae prosiect mawr ar y gweill i foderneiddio a chydgrynhoi'r gyfraith ar gynllunio yng Nghymru[3]. Mae hwn yn dwyn ynghyd arbenigedd polisi a chyfreithiol Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, gan weithio'n agos gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

27. Y disgwyl ydy y bydd Comisiwn y Gyfraith hefyd yn dechrau prosiect yn ddiweddarach eleni i adolygu'r gyfraith sy'n llywodraethu gweithrediad tribiwnlysoedd datganoledig Cymru. Mae'r rheolau a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig Cymru'n gymhleth ac yn anghyson, ar ôl datblygu'n dameidiog o wahanol ddarpariaethau deddfwriaethol yn ymwneud â phynciau gwahanol y tribiwnlysoedd. Datblygwyd llawer o'r ddeddfwriaeth hon cyn datganoli, a hefyd cyn cydnabod fod tribiwnlysoedd yn arfer swyddogaeth farnwrol y wladwriaeth, yn hytrach na'r swyddogaeth weithredol. Ymhellach, nid yw'r ddeddfwriaeth yn ystyried rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017. Yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol, bwriedir i'r prosiect arwain at ddatblygu Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, wedi'i gynllunio i weithredu un system rheoleiddio ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru.

*Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*

28. Diben Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yw gwneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

---

[3] Rydym hefyd yn gweithio ar gydgrynhoi cyfraith treftadaeth, ond dydy Comisiwn y Gyfraith ddim yn ran o'r gwaith hynny.

29. Amcan y polisi yw gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Er y bydd datrys y materion hyn yn galw am ymdrech ar y cyd o fewn y Senedd, Llywodraeth Cymru a thu hwnt, mae gan y Cwnsler Cyffredinol y cyfrifoldeb o oruchwylio hygyrchedd cyfraith Cymru gyfan. Bwriedir i hyn gael ei gyflawni drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru'n barhaus, ac i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno rhaglen o brosiectau a gynlluniwyd i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi sylw hir dymor i'r ymdrech barhaus fydd ei angen i greu llyfr statud modern, trefnus a dwyieithog i Gymru.

30. Mae rhwymedigaeth y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru'n ystyried a ddylid cynnig deddfwriaeth newydd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid ystyried sut y gallai'r dull o ddeddfu effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn ffordd benodol mewn unrhyw achos unigol.

31. Ar gyfer pob tymor y Senedd (gan ddechrau gyda thymor sy'n dechrau yn 2021) rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu a gweithredu rhaglen o weithgareddau a luniwyd i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Bydd cynnwys penodol pob rhaglen yn fater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, ond rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith sydd wedi'i chodeiddio, hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

32. Yr hyn sy'n hanfodol i lwyddiant cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yw bod y ddau yn parhau dros y tymor hir ac yn dod yn rhan dderbyniol o'r diwylliant deddfu yng Nghymru. Mae hyn yn golygu derbyn bod y gyfraith yn esblygu'n gyson a bod yn rhaid, hyd yn oed ar ôl iddi gael ei chydgrynhoi'n gyntaf, gael ei hailystyried o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn drefnus ac yn hygyrch. Mae hefyd yn golygu cynnal strwythur y llyfr statud (ond nid y cynnwys, a fydd bob amser yn newid yn unol â pholisi a dymuniadau gwleidyddol).

33. Wrth baratoi rhaglen bydd yn bwysig cymryd barn y cyhoedd. Prif ddiben hynny fydd sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd cyfraith hynny y mae angen eu cydgrynhoi fwyaf, a'r rhai a gaiff yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr deddfwriaeth (p'un ai yn gyrff cyhoeddus, busnesau neu ddinasyddion). Rhagwelir y bydd y rhaglen gyntaf yn cael ei pharatoi ar ffurf drafft ac yr ymgynghorir arni yn ystod haf 2021, cyn iddi gael ei chytuno gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol a'i gosod gerbron y Senedd.

34. Wrth ddatblygu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen gyntaf, ceisir barn yn awr ar feysydd penodol o'r gyfraith y mae defnyddwyr yn eu cael yn arbennig o anhygyrch – gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth am hyn.

*Dechrau'r broses o gydgrynhoi a godeiddio'r gyfraith*

35. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymdrin â'r broses o wneud y gyfraith yn fwy hygyrch drwy bedair prif fenter, ac edrychir ar bob un ohonynt yn fanylach yn y penodau canlynol:

- gosod fframwaith ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth fesul pwnc drwy gynllun dosbarthu sy'n **categoreiddio** (neu Dacsonomeg) ei gynnwys (gweler Pennod 3);

- ail-wneud cyfraith Cymru yn unol â'r dosbarthiad hwnnw yn bennaf drwy **gydgrynhoi'r** ddeddfwriaeth bresennol (gweler Pennod 4);

- dechrau proses o **godeiddio'r** gyfraith unwaith y bydd wedi'i chydgrynhoi fel ei bod yn aros o fewn y cynllun dosbarthu heb amlhau (gweler Pennod 5); a

- gwella ein **cyfathrebu** ynghylch y gyfraith a darparu mwy o eglurhad anneddfwriaethol o'i hystyr (gweler Pennod 6).

## Pennod 2: Categoreiddio cyfraith Cymru

36. Y cam nesaf ar y daith i greu llyfr statud gweddus i Gymru yw pennu sut yr hoffem i'r llyfr statud gael ei drefnu. Bwriedir gwneud hyn drwy ddatblygu system o gategoreiddio'r gyfraith – mewn geiriau eraill creu tacsonomeg o'i deunydd pwnc, y byddwn yn ei defnyddio er mwyn trefnu'r amrywiol ddeddfau, offerynnau statudol a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth sy'n ffurfio'r gyfraith.

37. Yn ogystal â phennu tacsonomeg lefel uchel, mae angen gwaith manwl i fapio cynnwys y llyfr statud presennol mewn meysydd datganoledig er mwyn pennu pa ddeddfiadau ddylai ddod o dan bob pennawd y tacsonomeg. Byddai hyn yn ei dro yn ein galluogi i ehangu'r tacsonomeg i haen fwy penodol o bynciau y byddai'r gyfraith yn cael ei threfnu ar ei chyfer.

38. Er mwyn ein cynorthwyo i ddeall sut y gellid trefnu'r gyfraith, mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol eisoes wedi datblygu tacsonomeg ddangosol o godau posibl (gwelir Atodiad A). Cyhoeddwyd hwn am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2018 er gwybodaeth, ac er na chafodd ei gynllunio i gwmpasu pob maes o gyfraith ddatganoledig, awgryma'r tacsonomeg sut y gellid trefnu deddfwriaeth yn y rhan fwyaf o feysydd allweddol. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r rhaniad dangosol hwn, gan gynnwys cwmpasu a dadansoddiad manylach o'r gyfraith bresennol. Bydd hon yn broses barhaus dros y 18 mis nesaf, ond bellach ceisir barn rhanddeiliaid ar y cynigion cychwynnol.

39. Y nod yw trefnu'r llyfr statud drwy gyfeirio at gategorïau pwnc a ddeëllir yn gyffredin, ac felly hoffai Llywodraeth Cymru wybod a yw defnyddwyr y llyfr statud yn ystyried fod y pynciau a'r is-bynciau arfaethedig wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n rhesymegol ac yn synhwyrol iddynt. Rydym yn cydnabod fod yna gwestiynau dyrys ynghylch ble y dylai'r ffiniau gael eu gosod.

40. Bydd sefydlu dosbarthiad rhesymegol a chlir yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull newydd o gyhoeddi'r gyfraith fel y mae, yn ôl pwnc y cynnwys. Bydd hyn yn cyflawni dau ddiben, sef (yn gyntaf) creu ffordd gymharol gyflym o wella'r ffordd y caiff y gyfraith ei chyhoeddi ac (yn ail) sefydlu man cychwyn clir ar gyfer y mentrau pellach sydd eu hangen i wneud y ddeddfwriaeth yn wirioneddol hygyrch.

41. Gan weithio ar y cyd â'r Archifau Cenedlaethol, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru, felly, ddatblygu cronfa ddata newydd o ddeddfwriaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Bydd hyn yn debyg i'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd ar wefan legislation.gov.uk o'r enw "Defralex"[4], gwasanaeth a ddatblygwyd gan adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU.

[4] Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/defralex

42. Mae Defralex yn ychwanegu cam ychwanegol at y broses arferol o gyhoeddi deddfwriaeth ar legislation.gov.uk, gan alluogi i feysydd gwybodaeth ychwanegol gael eu cipio a'u harddangos sydd o ddiddordeb i'r adran a'i rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys y 'categori' (e.e. iechyd a lles anifeiliaid, yr amgylchedd), 'ffynhonnell' y ddeddfwriaeth (i wahaniaethu rhwng deddfwriaeth sydd o darddiad yr UE, yn rhyngwladol neu'n ddomestig), a'r math o nodweddion deddfwriaethol a gyflwynwyd (e.e. trwyddedau, tramgwyddau, ffioedd neu daliadau). Gellir ychwanegu dogfennau cysylltiedig a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd ac sy'n gwella tryloywder i ddeddfwriaeth benodol hefyd, megis asesiadau effaith ac ymatebion i ymgynghoriadau.

43. Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu system debyg (ac mae'r enw "Cymrulex" wedi'i fabwysiadu fel enw gweithio) a fydd yn trefnu deddfwriaeth newydd yn y lle cyntaf mewn modd tebyg i "Defralex" drwy gyfeirio at ein tacsonomeg pwnc a'r system ddosbarthu ehangach sy'n cael ei ddatblygu. Unwaith y bydd hynny ar waith byddwn yn gweithio'n ôl i drefnu'r holl ddeddfwriaeth bresennol yn ôl-weithredol gan ddefnyddio'r un meini prawf dosbarthu.

44. Bydd y broses hon o drefnu deddfwriaeth yn ôl categorïau o bynciau hefyd yn llywio'r cam nesaf yn y broses – cyfuno'r gyfraith bresennol honno a'i chyhoeddi fel Codau.

**Cwestiwn 1: Gan gyfeirio at y tacsonomeg drafft yn Atodiad 1, a ydych yn cytuno â'r strwythur o bynciau ac is-bynciau a awgrymir?**

**Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw awgrymiadau er mwyn gwella'r tacsonomeg drafft hwn?**

## Pennod 3: Cydgrynhoi cyfraith Cymru

***Beth yw cydgrynhoi?***

45. Diben cydgrynhoi deddfwriaeth yw gwella mynediad at y gyfraith. Gwneir hyn drwy gyfuno'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (cynradd yn gyffredinol) ar bwnc fel y gellir dod o hyd iddi'n hawdd. Ymhellach, caiff y ffurf a'r modd y caiff y gyfraith ei drafftio ei moderneiddio i'w gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso. Mae diffiniadau o eiriaduron yn cyfeirio at gydgrynhoi fel y weithred neu'r broses o "*gyfuno nifer o bethau i greu un cyfanwaith mwy effeithiol neu gydlynus*" neu "*gwneud rhywbeth yn gryfach*". Nod Llywodraeth Cymru yw gwneud y ddau beth.

46. Mae cydgrynhoi'r gyfraith yn gyffredinol yn golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth ar bwnc penodol at ei gilydd, gan ymgorffori'n well newidiadau a wnaed i ddeddf ar ôl iddi gael ei deddfu, moderneiddio'r iaith, yr arddull drafftio a'r strwythur. Mae'n debyg i'r syniad o "ail-ddatganiad" y cyfeiriwyd ato'n y bennod flaenorol yn yr ystyr ei fod yn golygu ail-lunio'r gyfraith bresennol. Er hyn, mae cydgrynhoi'n gyffredinol yn gymwys i Ddeddf gyfan ac yn aml llawer o ddeddfau, drwy ddiweddaru darpariaethau a'u dwyn ynghyd. Yng Nghymru, bydd cydgrynhoi'r gyfraith yn golygu ail-ddeddfu cyfreithiau a wnaed yn flaenorol gan Senedd y DU, gan wneud hynny'n ddwyieithog.

47. Er bod manteision cydgrynhoi'n glir, a bod ymarferion cydgrynhoi'n cael eu cynnal fel mater o drefn mewn llawer o awdurdodaethau'r Gymanwlad, ychydig iawn o gydgrynhoi sydd wedi digwydd yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn er gwaethaf fod y broses cydgrynhoi'n rhan o gylch gwaith Comisiwn y Gyfraith, corff sydd wedi bod yn ymwybodol ers amser o'r angen i ddod â threfn i'r llyfr statud. Mae'n bwysig deall pam fod cyn lleied wedi'i wneud i gydgrynhoi'r gyfraith yn y DU o ystyried y manteision amlwg wrth wella hygyrchedd.

48. Yn draddodiadol, efallai fod blaenoriaeth wedi'i rhoi i newid y gyfraith, i adlewyrchu polisïau a mentrau deddfwriaethol newydd ac i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio fwyaf ar y dinesydd . Gwneir hyn ar sail achosion unigol, ac o ganlyniad nid yw hygyrchedd y llyfr statud yn ei gyfanrwydd yn brif ystyriaeth.

49. Yn ogystal, mae problemau eraill mwy ymarferol. Mae cydgrynhoi'r gyfraith yn cymryd llawer o amser ac mae'n dibynnu'n helaeth ar adnodd drafftio deddfwriaethol arbenigol prin. Rhaid i'r gyfraith sy'n cael ei chydgrynhoi fod yn gymharol statig hefyd, mewn geiriau eraill rhaid iddi sefyll yn ddigon hir iddi gael ei chydgrynhoi. Mae yna berygl, felly, o gychwyn ar broses o gydgrynhoi ar raddfa fawr a chanfod fod y blaenoriaethau gwleidyddol yn newid, a bod ffocws newydd yn dod i'r amlwg i ddiwygio'r gyfraith cyn y gellir cwblhau'r cydgrynhoi.

50. Yn rhannol, am y rhesymau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n amcanu i osod rhwymedigaeth statudol arni ei hun i barhau i adolygu hygyrchedd y gyfraith ac i gyflwyno rhaglen o weithgareddau er mwyn ceisio'u gwella. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ymwybodol o'r broblem hon ac yn gwerthfawrogi ei bod yn arbennig o ddifrifol yng Nghymru. Mae datblygu llyfr statud sy'n addas yn rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwella'r ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu.

***Craffu ar y broses gydgrynhoi***

51. Bydd angen i'r broses o ddatblygu rhaglenni gweithgareddau sydd â'r nod o wella hygyrchedd y gyfraith a chynhyrchu Biliau cydgrynhoi sicrhau cydbwysedd priodol rhwng bod yn hwylus ar y naill law a'r angen i graffu ar y llall. Rhaid cofio fod y broses o gydgrynhoi'n dechnegol ac nad yw'n caniatáu unrhyw newid sylweddol i sylwedd y gyfraith. Nid sicrhau diwygio polisi yw ei ddiben, gyda'r canlyniad o ddatblygu, craffu a phasio Bil, datblygu'r Bil cydgrynhoi yw'r broses gyfreithiol allweddol.

52. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol iawn hefyd fod yn rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar weithgarwch a fydd o fudd i randdeiliaid ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Yn ogystal, mae cydgrynhoi, wrth gwrs, yn golygu deddfu ac afraid dweud fod yn rhaid i'r hyn a wneir fod yn destun gwaith craffu priodol gan ein Senedd. Felly mae'n rhaid i'r rhaglenni a ragwelir gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 fod yn destun ymgynghoriad a rhaid craffu ar y Biliau cydgrynhoi a ddaw i'r amlwg.

53. Ar hyn o bryd[5], nid oes gan y Senedd weithdrefn benodol o dan ei Reolau Sefydlog ar gyfer ystyried Bil cydgrynhoi. Argymhellodd Pwyllgor Busnes y Senedd a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd diwethaf y dylid cyflwyno gweithdrefn o'r fath. Ym mis Rhagfyr 2016 ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol (ar y pryd) at y Pwyllgor Busnes yn awgrymu fod swyddogion o'r Llywodraeth a Chomisiwn y Senedd yn cydweithio i ddatblygu gweithdrefn, fel rhan o'r ymateb i adroddiad 2016 Comisiwn y Gyfraith.

54. Ym mis Gorffennaf eleni, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amlinelliad bras o weithdrefn o'r fath, ac yn ddiweddar mae wedi dechrau ystyried Rheol Sefydlog ddrafft a chanllawiau i'r Llywydd. Mae'r Pwyllgor Busnes wrthi'n ymgynghori â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â'r rheini.

55. O ganlyniad i ymwneud yn agos â'r broses o lunio'r weithdrefn ddrafft, mae ein gweledigaeth ar gyfer cydgrynhoi'r gyfraith yn gwbl gyson â'r cynigion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r hyn sy'n dilyn isod yn adlewyrchu hynny.

[5] Ar adeg cyhoeddi'r datganiad sefyllfa hwn

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynigion i Aelodau'r Senedd eu hystyried yn y dyfodol agos. Er hyn, fel man cychwyn dylem fod yn glir nad yw'r rheolau ynglŷn â'r hyn y gall Bil cydgrynhoi ei wneud yn fater i'r Weithrediaeth ond yn hytrach i'r Ddeddfwrfa.

56. Gan y bydd hon yn rhaglen a ddilynir gan y Llywodraeth, a chan mai'r Llywodraeth yn y pen draw sy'n gyfrifol am gydlyniad y llyfr statud, y bwriad yw y bydd Bil cydgrynhoi'n cael ei gyflwyno i'r Senedd gan aelod o'r Llywodraeth (yn hytrach nag fel Bil Aelod, neu Fil Pwyllgor neu Gomisiwn). Mae hyn yn gyson ag arfer mewn mannau eraill, ac yn ein cyd-destun, byddai'r Cwnsler Cyffredinol yn debygol o'i gyflwyno. Diben Bil o'r fath fyddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol a gallai hefyd gynnwys is-ddeddfwriaeth neu reolau cyfraith gyffredin.

***Y math o faterion y gellir ymdrin â hwy mewn ymarfer cydgrynhoi***

57. Mae cydgrynhoi'r gyfraith - yn enwedig yng nghyd-destun Cymru - yn fater cymhleth ac mae'n debygol o ddatgelu anghysonderau ac eithriadau'n y ddeddfwriaeth bresennol. Gall cynhyrchu fersiwn modern a hygyrch o'r gyfraith bresennol hefyd alw am wneud mân newidiadau. Gall gwelliannau o'r fath fod yn fân ac yn annadleuol, ond bydd rhaid ymdrin ag unrhyw newid arall y gallai'r Llywodraeth ddymuno ei ddilyn yn ôl yr angen drwy Fil diwygio (a'i ystyried gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 26).

58. Wrth ddatblygu ein safbwynt ar natur a graddau'r broses o gydgrynhoi, rydym wedi ystyried enghreifftiau o filiau o'r fath yn y DU, yn ogystal ag edrych i wledydd eraill y Gymanwlad (gan gynnwys Seland Newydd ac Awstralia). Ceir sawl nodwedd gyffredin o gydgrynhoi, ac ystyrir y rhain ymhellach isod, o safbwynt y cyd-destun Cymreig.

***Trefniadaeth, iaith a fformat***

59. Gall Biliau cydgrynhoi ail-ddatgan y ddeddfwriaeth bresennol gydag unrhyw newidiadau mewn trefn, iaith neu fformat sy'n briodol i wella cyflwyniad y gyfraith a sicrhau cysondeb â'r arferion drafftio cyfredol[6].

60. Gall paratoi Bil cydgrynhoi arwain at ddeddfwriaeth sy'n edrych yn wahanol iawn i'r testun gwreiddiol. Gellir cyflawni newidiadau cyflwyniadol arwyddocaol a gynlluniwyd i foderneiddio'r iaith a gwneud ei strwythur yn fwy hygyrch heb wneud newidiadau i effaith y gyfraith.

61. Yn ymarferol, gallai hyn gynnwys:

[6] Mae'r arferion drafftio presennol wedi'u nodi yn Neddfau ysgrifennu Cymru: Canllaw i'r drafftio deddfwriaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Hydref 2019)

a. ail-rifo ac aildrefnu darpariaethau a mynegi darpariaethau mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu heffaith gyfreithiol wirioneddol[7],

b. newid iaith deddfwriaeth sy'n bodoli'n Saesneg yn unig er mwyn hwyluso'r broses o lunio Bil dwyieithog cydlynol. Byddai ymarfer cydgrynhoi hefyd yn mabwysiadu iaith niwtral o ran rhyw ac yn moderneiddio'r iaith mewn unrhyw ffordd arall (gan gynnwys drwy hepgor geiriad diangen),

c. mabwysiadu newidiadau eraill mewn fformat megis labeli a phenawdau; tablau newydd, fformiwlâu neu ffyrdd eraill o gyflwyno gwybodaeth; gan gynnwys cymhorthion llywio fel trobwyntiau a darpariaethau cyfeirio[8],

d. mae'n bosibl ei fod yn cynnwys darpariaethau llawn deddfwriaeth arall sydd wedi'u hymgorffori'n y ddeddfwriaeth sydd wedi'i gydgrynhoi.

*Egluro'r cais neu'r effaith*

62. Gall cais neu effaith y darpariaethau presennol fod yn aneglur oherwydd bod eu drafftio'n creu amheuaeth neu amwysedd (er enghraifft, ansicrwydd ynghylch pryd mae cyfnod o amser yn dod i ben neu ynghylch pa gyrff sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd). Dylai Bil cydgrynhoi allu egluro'r ystyr a fwriedir, er enghraifft drwy sillafu'n fwy eglur pan fydd darpariaeth neu ddiffiniad penodol yn gymwys. Yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ddwyieithog, gall yr eglurhad gynnwys cysoni unrhyw amwysedd yn y naill iaith neu'r llall.

63. Gall eglurhad gynnwys llenwi bylchau yn y ddeddfwriaeth, er enghraifft drwy gynnwys diffiniadau o dermau nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn eu diffinio, neu drwy egluro fod cymhwysiad darpariaeth yn gyfyngedig i'r achosion penodol y mae'n berthnasol iddynt . Yng nghyd-destun Cymru, gallai hyn gynnwys egluro effaith trosglwyddo swyddogaethau mewn perthynas â Chymru drwy ddarparu terfyn tiriogaethol cliriach mewn Bil cydgrynhoi (a therfyn tiriogaethol cyfatebol mewn unrhyw ddeddf sy'n rhan o'r cydgrynhoi ond a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i Loegr ar ôl i'r Bil cydgrynhoi gael ei basio).

64. Ceir enghreifftiau o Filiau cydgrynhoi a gynhyrchir mewn mannau eraill[9] lle mae eglurhad o fwriad hefyd wedi golygu unioni'r sefyllfa lle nad yw geiriad y darpariaethau presennol yn adlewyrchu'r ystyr a ddeëllir ganddynt yn ymarferol,

---

[7] Er enghraifft, mabwysiadu terminoleg sy'n adlewyrchu datganoli a throsglwyddo swyddogaethau eraill sydd wedi digwydd ers i'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei phasio

[8] gan gynnwys cyfeirio at ddeddfwriaeth nad yw wedi i chynnwys yn y cydgrynhoi ond sy'n berthnasol iddi Gweler er enghraifft Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 (Deddf gydgrynhoi Senedd y DU) a ddileodd y gofyniad am "resymau arbennig" dros gofrestru cymdeithas, i adlewyrchu sut y cymhwyswyd y darpariaethau yn ymarferol ac bwriadwyd iddynt gael eu cymhwyso'n wreiddiol. Nid oedd hyn yn ymwneud ag anghysondeb yn y ddeddfwriaeth ei hun

neu lle mae gwahanol ddeddfau'n gwneud darpariaeth ynglŷn â'r un mater sydd, neu a all fod, yn groes.

65. Pan fydd Bil cydgrynhoi'n ceisio egluro ystyr darpariaethau presennol mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, mae'r Llywodraeth yn glir y dylai wneud hyn yn y ffordd sy'n adlewyrchu'r ystyr y deëllir sydd gan y darpariaethau, neu y credir fod y ddeddfwrfa wedi bwriadu.

66. Yn ystod taith Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol nad oes unrhyw fwriad i ddefnyddio Biliau cydgrynhoi i ymgymryd â'r broses o godeiddio'r gyfraith gyffredin yn llwyr. Fodd bynnag, gallai Bil cydgrynhoi (ac yn gyffredinol dylai) gynnwys effaith cyfraith achosion ar ystyr y ddeddfwriaeth bresennol lle y bo'n berthnasol. O fewn rhai amgylchiadau gall hefyd fod yn synhwyrol i ymgorffori cynnwys rheolau cyfraith gyffredin sydd â chysylltiad agos â'r darpariaethau statudol, er mwyn rhoi ailddatganiad mwy cyflawn o'r gyfraith bresennol.

*Dileu neu hepgor darpariaethau sy'n anarferedig, wedi'i darfod neu ddim yn weithredol*

67. Efallai y bydd angen i Filiau cydgrynhoi ddileu neu hepgor darpariaethau sydd wedi darfod, sy'n anarferedig, neu heb fod o ddefnyddioldeb neu effaith ymarferol mwyach. Er bod y termau hyn yn cael eu defnyddio'n gyd-gyfnewidiol yn aml, yn y cyd-destun hwn maent yn tueddu i ymdrin â materion ychydig yn wahanol. Byddai darpariaeth ddarfodedig yn cynnwys darpariaeth sydd wedi dyddio, er enghraifft oherwydd ei bod yn ymwneud â chyrff, personau neu bethau nad ydynt bellach yn bodoli neu'n cael eu defnyddio. Mae darpariaeth wedi'i darfod yn un sy'n berthnasol i sefyllfa na all fodoli mwyach, megis darpariaeth sy'n rhoi swyddogaeth na ellir ei defnyddio eto (er enghraifft, oherwydd bod y ddeddfwriaeth wreiddiol wedi darparu ar gyfer un cam i'w gymryd a bod hyn wedi'i wneud, neu oherwydd ni ellir diwallu amodau ar gyfer eu defnyddio mwyach).

68. Gallai rhywbeth nad yw o gymorth ymarferol neu'n ymarferol mwyach gynnwys darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol bellach gan fod darpariaeth gyfreithiol sydd â effaith gyfreithiol gyfatebol ar gael rhywle arall (naill ai o fewn y Bil cydgrynhoi neu mewn deddfwriaeth arall sy'n gymwys yng Nghymru).

69. Byddai dileu darpariaethau o'r tri math o fudd i hygyrchedd y ddeddfwriaeth sydd wedi ei gydgrynhoi, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth y mae angen ei diwygio o ganlyniad i'r cydgrynhoi (gweler hefyd isod).

*Mân newidiadau i’r gyfraith at ddibenion sicrhau cydgrynhoi’r gyfraith bresennol yn foddhaol*

70. Efallai y bydd angen newidiadau er mwyn cydgrynhoi’r gyfraith yn foddhaol. Unwaith eto yn sgil peidio â gwneud newid polisi sylweddol, gallai mân newidiadau o’r fath gynnwys datrys anghysondebau wrth gymhwyso’r gyfraith mewn achosion gwahanol, lle nad yw’r rhesymau dros wahaniaeth yn berthnasol bellach neu lle na ellir eu deall. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

    a. dileu neu gysoni anghysondebau mewn pwerau gwneud rheoliadau ar draws gwahanol ddarpariaethau;

    b. sicrhau, pan ymdrinnir â mater ar wyneb un Ddeddf, ond drwy is-ddeddfwriaeth mewn Deddf arall, y gellir ymdrin â’r ddau mewn deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (fel y bo’n briodol);

    c. sicrhau fod achosion tebyg yn cael eu trin yn yr un ffordd yn y Bil cydgrynhoi, er enghraifft drwy gysoni unrhyw anghysondebau rhwng darpariaethau sydd wedi dod o wahanol ddeddfiadau neu drwy ymestyn darpariaethau neu ddiffiniadau cyffredinol yn un o’r Deddfau presennol i gwmpasu’r holl ddeddfiadau sy’n cael eu cyfuno;

    d. mewn achosion lle mae’n rhaid rhoi rhybudd yn ysgrifenedig, a lle bo rhai deddfiadau presennol yn pennu’n benodol fod rhaid ysgrifennu ond nid yw eraill yn gwneud hynny, gellir pennu’r gofyniad i roi hysbysiad ysgrifenedig yn yr holl ddarpariaethau (neu dim un ohonynt os yw mor amlwg fel nad oes angen pennu hyn).

    Gallai cydgrynhoi boddhaol hefyd arwain at fân newidiadau i gywiro camgymeriadau neu anghysonderau’n y ddeddfwriaeth bresennol sy’n cael ei chydgrynhoi.

71. Yn ogystal, bydd yn bwysig sicrhau bod y ddeddfwriaeth sydd wedi’i gydgrynhoi’n gydnaws â hawliau’r Confensiwn. Gallai hyn gynnwys ymgorffori effaith cyfraith achos sydd wedi sicrhau fod unrhyw ddarpariaeth bresennol yn gydnaws â hawliau’r Confensiwn; gall hefyd gynnwys diwygio neu hepgor darpariaeth sy’n bodoli eisoes neu wneud darpariaeth newydd lle mae’n amlwg bod angen newid o’r fath er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gydnaws â’r Confensiwn.

72. Yng nghyd-destun Cymru, bydd angen darparu y bydd y ddeddfwriaeth sydd wedi’i gydgrynhoi’n gweithredu’n gywir mewn perthynas â Chymru, gan ystyried unrhyw faterion trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr. Efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau hefyd i sicrhau cysondeb o ran testunau Cymraeg a Saesneg Bil.

73. Dros amser, mae deddfwrfeydd wedi sefydlu safbwyntiau ynghylch pa faterion y dylid ymdrin â hwy mewn is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol. Dylai'r Bil cydgrynhoi adlewyrchu arferion drafftio presennol (yn seiliedig ar ddull y Senedd o ymdrin â'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth). Felly, efallai y bydd angen symud darpariaethau o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol (ac o bryd i'w gilydd o'r ddeddfwriaeth sylfaenol i'r is-ddeddfwriaeth) neu newid ffurf is-ddeddfwriaeth neu'r weithdrefn sy'n berthnasol iddi, er mwyn gwella'r cysondeb neu gydlyniad y corff perthnasol o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, lle mae darpariaethau ynghylch mater penodol wedi'u cynnwys yn rhannol mewn deddfwriaeth sylfaenol ac yn rhannol mewn is-ddeddfwriaeth, gall fod yn briodol symud darpariaethau o un lefel i'r llall, fel bod popeth ynglŷn â'r mater hwnnw yn yr un lle. Ac yn debyg, os yw rheoliadau neu orchmynion yn ymdrin â mater pwysig sy'n effeithio ar y modd y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithio, gellid ail-ddatgan deunydd yn y rheoliadau neu'r gorchmynion.

74. Enghraifft arall o newid bach a all godi fyddai sefyllfa lle bo pŵer i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i addasu'r modd y gweithredir deddfwriaeth sylfaenol, ac mae'r holl addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud eisoes, efallai y byddai'n briodol cael gwared â'r pŵer a ymgorffori'r addasiadau a'u hail-ddatgan y ddeddfwriaeth sylfaenol.

75. Yn unol â'r arferion drafftio cyfredol, caiff pwerau i Weinidogion i ddeddfu drwy orchymyn eu hail-ddatgan fel arfer fel pwerau i wneud rheoliadau . Gall fod yn briodol hefyd cyfnewid pwerau i wneud cyfarwyddiadau cyffredinol (yn hytrach na chyfarwyddiadau penodol a gyfeiria at unigolion) gyda phwerau i wneud rheoliadau. Yn yr un modd, pan nad yw pŵer presennol i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn y Senedd, ond y byddai disgwyl i bŵer o'r fath ddenu gweithdrefn y Senedd heddiw, gall Bil cydgrynhoi ail-ddatgan y pŵer gyda gweithdrefn briodol. Gall Bil cydgrynhoi hefyd ddileu anghysonderau ac anomaleddau eraill mewn darpariaethau gweithdrefnol.

*Argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Bil cydgrynhoi*

76. Efallai y byddai'n ddymunol pe bai Bil cydgrynhoi'n gwneud newidiadau eraill i'r gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell ei bod yn briodol eu cynnwys o fewn Bil cydgrynhoi. Ni fyddai hyn yn golygu y gellir defnyddio biliau cydgrynhoi i roi pob cynnig ar ddiwygio'r gyfraith a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith, ond gallai ymdrin â newidiadau i'r gyfraith y byddai'n gyfleus eu gwneud ar yr un pryd â chydgrynhoi'r gyfraith bresennol, nad ydynt yn cynnwys polisi newydd arwyddocaol nac yn peri cryn ddadlau. Gallai enghreifftiau o'r math hwn o newid gynnwys diwygio set o ofynion gweithdrefnol i sicrhau eu bod yn gweithio'n well yn ymarferol, neu eu symleiddio er mwyn dileu'r camau gwag o'r weithdrefn.

*Darpariaethau trosiannol, arbedion, diwygiadau canlyniadol a diddymiadau*

77. Bydd hefyd yn angenrheidiol sicrhau fod biliau cydgrynhoi yn gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed priodol, ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i ddeddfwriaeth bresennol (gan gynnwys diwygiadau i sicrhau fod deddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â Lloegr).

78. Gellid gwneud darpariaeth o'r fath mewn Atodlen i'r Bil cydgrynhoi, neu o bosibl fel ail Fil cydgrynhoi, a fyddai'n sicrhau y byddai'r prif Fil cydgrynhoi'n sefyll fel y datganiad o sylwedd ar y gyfraith unwaith y daw i rym (ac felly'n osgoi gadael y brif Ddeddf yn anniben â darpariaethau canlyniadol sy'n annhebygol o fod yn arwyddocaol berthnasol i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr). Cymerwyd ymagwedd debyg pan gyfunwyd deddfwriaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2006, a phan atgyfnerthwyd deddfwriaeth dŵr a chynllunio mewn cyfres newydd o ddeddfau ddechrau'r 1990au.

***Prosiectau cydgrynhoi arfaethedig***

79. Fel y nodwyd yn gynharach, mae prosiect mawr ar y gweill i gydgrynhoi cyfraith cynllunio yn sgil adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Rydym hefyd yn gweithio i atgyfnerthu'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y prosiectau hyn maes o law.

80. Bydd prosiectau cydgrynhoi pellach, a gweithgareddau eraill sy'n ceisio gwella hygyrchedd cyfraith Cymru, yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni sydd i'w cyflwyno o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Bydd y rhaglen ffurfiol gyntaf yn dechrau yn 2021, a rhaid i'r Llywodraeth gyhoeddi rhaglen ddrafft ar gyfer ymgynghori'n ystod yr haf y flwyddyn honno.

81. Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol iawn fod yn rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar weithgarwch y mae ar randdeiliaid ei eisiau ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Felly er mwyn helpu i lunio'r rhaglen yr ymgynghorir arni yn 2021 byddai'n ddefnyddiol deall yn awr a oes unrhyw feysydd penodol o'r gyfraith a fyddai'n elwa o gael eu cydgrynhoi, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 3: Yn eich barn chi, pa faes neu feysydd penodol o gyfraith ddatganoledig sydd angen eu cydgrynhoi fwyaf, a pham?**

## Pennod 4: Codeiddio cyfraith Cymru

82. Ar ôl categoreiddio cyfraith Cymru drwy'r broses ddosbarthu a amlinellwyd uchod, ac ar ôl ymrwymo amser ac ymdrech i gydgrynhoi'r gyfraith, bydd angen mecanwaith i gadw'r gorchymyn a fydd wedi'i greu. Un broblem a brofwyd yn y gorffennol wrth gydgrynhoi'r gyfraith yw y gall newid gwleidyddol ddatod y strwythur a'r drefn hygyrch a roddwyd ar waith gan y broses gydgrynhoi. Mae'n hanfodol felly gwahaniaethu rhwng cynnwys y gyfraith a fydd bob amser yn agored i newid yn y ffordd arferol, a'i strwythur trosfwaol sydd (yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r cynnwys wedi newid) yn gallu cael ei gadw.

83. Y broses a luniwyd i gadw strwythur y llyfr statud ar ôl iddo gael ei ddwyn i drefn yw codeiddio. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o raglenni gwella hygyrchedd cyfraith Cymru'r Llywodraeth gynnwys gweithgareddau arfaethedig y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru. Yn ogystal, bydd yn ofynnol iddynt gynnal ffurf y Gymraeg (unwaith y caiff y gyfraith ei chodeiddio)[10]. Mae'r Ddeddf yn egluro bod 'codeiddio cyfraith Cymru'n' cynnwys–

a. mabwysiadu strwythur ar gyfer cyfraith Cymru sy'n gwella ei hygyrchedd;

b. trefnu a chyhoeddi cyfraith Gymreig wedi'i chydgrynhoi'n unol â'r strwythur hwnnw.

84. Fel y nodir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf [11]:

*Mae'r diffiniad yn ei gwneud yn glir y bwriedir i godeiddio'r gyfraith ddod â threfn i'r llyfr statud. Mae hyn yn golygu trefnu a chyhoeddi'r gyfraith drwy gyfeirio at ei chynnwys (yn hytrach na dim ond pryd y'i gwnaed), a chynnal system y mae'r gyfraith honno yn cadw ei strwythur odani, yn hytrach nag amlhau. Yn gyffredinol, byddai "Cod" o gyfraith Cymru yn cael ei gyhoeddi unwaith bod peth o'r ddeddfwriaeth sylfaenol neu'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol ar bwnc penodol (gan ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol) wedi ei chydgrynhoi, neu wedi ei chreu o'r newydd ar ôl ei diwygio'n helaeth. Fel arfer, dylai proses o resymoli is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y ddeddfwriaeth sylfaenol ddigwydd ar y cyd â hyn. Byddai'r hierarchaeth bresennol o fewn offerynnau deddfwriaethol (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a chanllawiau neu ddogfennau tebyg eraill a wneir o dan y Deddfau neu'r is-*

[10] Rhaid i bob rhaglen hefyd gynnwys gweithgareddau a'r bwriad o hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gall rhaglenni hefyd gynnwys gweithgareddau arfaethedig y gellir eu cynnal ar y cyd â Chomisiwn y gyfraith, neu weithgareddau o unrhyw fath arall y mae Gweinidogion Cymru a ' r Cwnsler Cyffredinol yn eu hystyried yn briodol. Gweler adrannau 2(3) a (4) o Ddeddf 2019

[11] Gwelir paragraffau 23 a 24

*ddeddfwriaeth), a'r ffiniau rhyngddynt, yn parhau. Bydd yr holl ddeddfwriaeth o fewn Cod yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

*Felly, nid un offeryn deddfwriaethol fyddai Cod (yn gyffredinol) ond yn hytrach gasgliad o ddeddfiadau o dan un enw cyffredinol sy'n eu dwyn ynghyd. Byddai'r deddfiadau hynny sy'n rhan o'r Cod ar unrhyw bwnc penodol yn cael eu rhoi ar gael gyda'i gilydd. Yn yr un modd, bydd y deddfiadau hyn yn parhau i fod yn gyfrwng i'r gyfraith gael ei mynegi'n ffurfiol drwyddo. Ni fwriedir i'r Cod fod yn offeryn cyfreithiol ynddo'i hun ond yn hytrach yn ddull o goladu a chyhoeddi'r gyfraith yn fwy effeithiol.*

85. Bwriad y bennod hon yw rhoi rhagor o wybodaeth am fwriadau'r Llywodraeth wrth godeiddio cyfraith Cymru.

***Diben codeiddio***

86. Bwriad y broses codeiddio yw dod â threfn i'r llyfr statud. Mae'n dechrau drwy ddosbarthu deddfwriaeth bresennol a'i threfnu'n unol a'i phwnc; dyma'n rhannol pam fod y dacsonomeg arfaethedig a drafodir uchod yn bwysig. Fodd bynnag, ni fydd hyn ynddo'i hun yn ymdrin â'r materion o ddiffyg hygyrchedd a achosir gan faint y ddeddfwriaeth a'r ffordd y cafodd y ddeddfwriaeth ei diwygio, ei hail-ddiwygio a'i hail-wneud dros amser.

87. Bydd cydgrynhoi (a phrosiectau sy'n cynnwys deddfu er mwyn sicrhau diwygio ar raddfa eang) yn dod â threfn yn seiliedig ar y dosbarthiad hwnnw. Fel y trafodwyd uchod, mae hyn yn ymwneud â gosod trefn ar yr holl ddeddfwriaeth bresennol sy'n perthyn i bwnc, a'u gosod i mewn i Ddeddf newydd ac is-ddeddfwriaeth ategol.

88. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn o ddosbarthu a chydgrynhoi'r gyfraith yng Nghymru, byddwn yn dilyn dau gysyniad:

   a. "Côd" yw'r label y byddwn yn ei ddefnyddio i ddisgrifio deddfwriaeth sydd wedi'i dosbarthu o dan bwnc penodol, er enghraifft "Côd Tai" neu "Gôd iechyd y cyhoedd". Yn ei hanfod, mae'n fodd o gyhoeddi, a chasglu deddfwriaeth sy'n fynegiant cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol. Defnyddiwn y term 'Côd' am gasgliad o ddeddfau ar bwnc penodol – ni fwriedir iddo feddu unrhyw statws cyfreithiol annibynnol;

   b. Er hyn, mae codeiddio'n golygu ffurfioldeb yn yr ystyr ei fod hefyd yn cyfeirio at y broses o gynnal strwythur y gyfraith. Fel rhan o'r broses o ddeddfu'n gynhwysfawr ar bwnc (drwy gydgrynhoi neu ddiwygio), gellir dynodi Deddf yn brif ddeddfwriaeth gynradd ar bwnc penodol. Ein bwriad yw cadw strwythur y brif ddeddfwriaeth i'r graddau bo hynny'n ymarferol. Mae'r Llywodraeth yn argymell (yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith) y dylai Rheolau

Sefydlog y Senedd ofyn am ddynodiad o’r fath fel bod unrhyw gynnig i newid y ddeddfwriaeth sy’n gwyro o strwythur y llyfr statud (mewn geiriau eraill, cadw’r "prif" ddeddfwriaeth yn ddeddfwriaeth greiddiol i’r pwnc) angen cyfiawnhad a chytundeb (gweler isod).

***Cynnal strwythur y codau***

89. Mae’r gyfraith yn esblygu’n barhaol, hyd yn oed ar ôl iddi gael ei chydgrynhoi, a rhaid ail-edrych arni o bryd i’w gilydd, i sicrhau ei bod yn parhau’n drefnus ac yn hygyrch. Mae angen i ni felly ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau y cedwir y manteision o ganoli’r gyfraith ar bwnc mewn un lle pan, yn anochel, y bydd angen newidiadau deddfwriaethol.

90. Gyda chytundeb y Senedd, mae’n bosib y gellid datblygu prosesau er mwyn gwarchod y ddeddfwriaeth graidd neu’r prif ddeddfwriaeth ar unrhyw bwnc. Byddai codeiddio’n golygu cael Deddf y Senedd a fyddai’n nodi’r gyfraith yn gynhwysfawr, neu o leiaf elfennau sylfaenol y gyfraith, mewn maes penodol, naill a’i drwy gydgrynhoi neu ddiwygio ar raddfa eang (o bosibl gydag elfennau o ail-ddatganiad) – a’r Ddeddf honno’n cael ei dynodi’n ’brif Ddeddf '[12].

91. Cynigiwn fod dynodi deddfwriaeth fel ’prif Ddeddf’ yn dod â rhywfaint o warchodaeth weithdrefnol o fewn y Rheolau Sefydlog, nid o safbwynt cynnwys y Ddeddf (y mae’n rhaid iddi fod yn agored i newid yn y ffordd arferol) ond i le’r Ddeddf honno o fewn strwythur trosfwaol y llyfr statud. Lle bydd angen diwygio, ein bwriad yw y dylid diwygio’r brif Ddeddf ei hun, neu ddisodli’r brif Ddeddf â phrif Ddeddf arall fel bod strwythur y llyfr statud yn ei gyfanrwydd yn cael ei gynnal. Wedi cydgrynhoi neu ddiwygio’r gyfraith i brif Ddeddf o dan ddosbarthiad pwnc cytunedig, byddai’n ofynnol i’r Aelod sy’n gyfrifol, gyfiawnhau unrhyw wyriad rhag defnyddio’r Ddeddf fel prif ddeddfwriaeth, a sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth arfaethedig ei chraffu gan y Senedd.

92. Fel rheol gyffredinol, mae codeiddio’n golygu fod yn rhaid i newidiadau i ddeddfwriaeth gynradd ar bwnc penodol gael eu gwneud drwy ddiwygio’r brif Ddeddf ar y pwnc hwnnw. Lle, dros amser, y cafodd prif Ddeddf ei diwygio’n helaeth ar sawl achlysur, bydd angen cydgrynhoi (neu ail-gydgrynhoi) ac wrth wneud hynny greu prif Ddeddf newydd. Yn yr un modd, byddai diwygiad mwy sylfaenol o’r gyfraith o fewn pwnc yn cael ei wneud fel arfer drwy ddisodli’r brif Ddeddf â phrif Ddeddf arall.

---

[12] Mabwysiedir y term hwn at ddibenion y papur hwn; bydd y tymor olaf yn fater i'r Senedd os mabwysiedir y dull o ddefnyddio Rheolau Sefydlog i ddod â lefel o warchodaeth i'r gyfraith wedi'i chodeiddio.

93. Byddai cynnal deddfwriaeth gynradd fel hyn hefyd yn helpu i leihau'r gormodedd o is-ddeddfwriaeth (a wneir wrth gwrs o dan y ddeddfwriaeth gynradd). Fodd bynnag, mae angen parhaol i atal creu offerynnau statudol lluosog o dan yr un pŵer. Mewn egwyddor, gellid defnyddio'r syniad o "brif" ddeddfwriaeth mewn rhai amgylchiadau, er hyn, mae'n siŵr fod yna ddulliau eraill, mwy syml, o gyflawni'r nod. Un opsiwn sy'n cael ei ystyried, yn hytrach na newid y gyfraith drwy ddiwygio offeryn statudol gan ddefnyddio offeryn statudol arall (a thrwy hynny greu dau, ac yna mwy o offerynnau bob tro y gwneir diwygiadau), yw y cyflawnir y newid drwy ail-wneud yr offeryn gwreiddiol yn ei gyfanrwydd, ond gyda diwygiadau. Er y byddai hyn yn gofyn am newid i weithdrefnau'r Rheolau Sefydlog, dim ond y diwygiadau i'r offeryn statudol fyddai'n cael eu craffu.

94. Fel rheol gyffredinol, cynigiwn mai un set o reoliadau sydd mewn grym ar unrhyw adeg o dan unrhyw un pŵer i wneud rheoliadau; neu un gyfres yn unig o reoliadau sydd mewn grym o dan gyfuniad o bwerau i wneud rheoliadau lle mae hyn yn bosibl. Byddai hyn yn gofyn am fenter hir dymor i resymoli is-ddeddfwriaeth bresennol i gyd-fynd â chydgrynhoi deddfwriaeth yn bennaf. Fodd bynnag, gellir defnyddio pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn aml at ddibenion gwahanol, ac efallai y bydd amgylchiadau lle y bydd hi'n fwy hygyrch defnyddio rheoliadau gwahanol.

95. Mae codeiddio'n fater lle bydd angen cydweithio pellach gyda'r Senedd ac asesiad manylach o unrhyw gymhlethdodau a allai godi.

96. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio fod y broses a nodir uchod yn gyffredinol glir – mae "Côd" yn ddogfen fer, a ddefnyddir at ddibenion cyhoeddi, a chasglu deddfwriaeth sy'n fynegiant cynhwysfawr o'r gyfraith ar bwnc penodol; tra bod "codeiddio'n" cyfeirio'n bennaf at gyhoeddi'r gyfraith yn unol â strwythur trefnus yn ogystal â phroses o gynnal y strwythur hwnnw, unwaith y bydd y drefn wedi'i phenodi.

### *Dynodi deddfwriaeth*

97. Mae'r broses y cyfeirir ati uchod yn seiliedig ar ddynodi deddfwriaeth fel y "prif" ddeddf ar bwnc penodol. Bydd y dasg o sefydlu'r pwnc drwy ymarfer dosbarthu wedi digwydd o flaen llaw. Cynigydd y ddeddfwriaeth fydd yn gwneud hyn, gan sicrhau fod darpariaeth yn y Ddeddf sy'n pennu fod y ddeddfwriaeth i fod yn 'brif Ddeddf'. O ran biliau, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, yn nodi yn yr adran sy'n mynegi'r teitl byr yn datgan mai'r Bil fydd y 'brif Ddeddf' ar y pwnc. Dyma rywbeth, o bosib, y dymunwn ei wneud yn ôl-weithredol fel y gellir dynodi o fewn Bil sy'n diwygio Deddf fod y Ddeddf honno i'w hystyried yn brif Ddeddf ar bwnc.

98. Gan mai’r Senedd sydd yn pasio Bil a gynigir i ddod yn brif Ddeddf, mater i’r Senedd yn hytrach na’r Llywodraeth yw’r penderfyniad terfynol ynghylch p’un a’i bydd deddfwriaeth yn ffurfio rhan o Gôd a’i peidio.

99. Mae’r broses a ragwelir yn golygu y bydd dynodiad fel prif Ddeddf yn bodoli o fewn deddfau unigol, yn hytrach nag ar gofrestr ffurfiol neu mewn offeryn cyfreithiol.

100. Dylid cofio y bydd Biliau nad ydynt wedi’u cynllunio i fod yn ’brif ddeddfwriaeth’ mewn Côd yn parhau i gael eu cynnig gan y Llywodraeth. Gall sefyllfa o’r fath godi am nifer o resymau – er enghraifft, pan nad yw’r pwnc yr ymdrinnir ag ef yn y ddeddfwriaeth sydd wedi’i gydgrynhoi’n gynhwysfawr eto, neu os yw’n ddeddfwriaeth sy’n diwygio Deddfau Llywodraeth y DU.

***Ddeddfwriaeth ar bwnc wedi’i godeiddio nad yw’n rhan o’r Côd***

101. Gwerth Côd yw ei natur gynhwysfawr, gan mai dyma fydd prif ffynhonnell y gyfraith ar bwnc i’r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Yn ddelfrydol byddai’r holl ddeddfwriaeth ar y llyfr statud yn ffurfio rhan o Gôd.

102. Er hyn, rydym yn cydnabod, hyd yn oed ar ôl i godau gael eu creu ar draws meysydd datganoledig, y bydd deddfwriaeth Gymreig yn syrthio y tu allan i’r codau. Bydd hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy’n gwneud diwygiadau i’r gyfraith sy’n gymwys yn Lloegr (y bwriadwn eu gwneud ar wahân) o ganlyniad i greu codau yng Nghymru, a deddfwriaeth ar feysydd trawsbynciol.

103. Dylid cydnabod hefyd mai dim ond i faterion sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y gall proses o godeiddio fod yn gymwys. Bydd hyn yn gyfyngiad sylweddol. Y rheswm cyntaf am hyn yw y bydd cymhlethdod a chulni’r system yng Nghymru’n arafu’r broses oherwydd yr angen i ddadansoddi cymhwysedd a delio â materion trawsffiniol. Yn ail, bydd y ffin ddatganoli’n aml yn torri ar draws ffiniau naturiol y pwnc dan sylw - mewn geiriau eraill, ni fydd Côd weithiau’n fynegiant mor gynhwysfawr o’r gyfraith ag y byddem yn dymuno oherwydd y cyfyngiadau ar gymhwysedd.

104. Yn olaf, rydym hefyd yn bwriadu gweithredu (fel rhan o’r rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru) i fynd i’r afael â deddfwriaeth nad oes angen iddynt fod ar y llyfr statud gan ddefnyddio’r pŵer newydd yn adran 38 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sy’n yn darparu fel a ganlyn:

> *Pan fo darpariaeth mewn unrhyw ddeddfwriaeth y mae’r adran hon yn gymwys iddi yn disgrifio dyddiad neu amser drwy gyfeirio at ddyfodiad deddfiad i rym neu unrhyw ddigwyddiad arall, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio’r ddarpariaeth drwy reoliadau fel ei bod yn cyfeirio at y gwir ddyddiad neu amser (unwaith y bydd yn hysbys).*

**Cwestian 4: A ydych yn cytuno â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r dull arfaethedig o godeiddio cyfraith Cymru?**

## Pennod 5: Cyfathrebu ac egluro cyfraith Cymru

105. Mae'r prosesau a ddisgrifir yn y papur hwn hyd yma'n rhai cyfreithiol. Nid yw'n syndod, o ystyried ein bod yn trafod y ffordd yr ydym yn trefnu'r gyfraith. Fodd bynnag, mae technegau cyfathrebu modern a disgwyliadau defnyddwyr deddfwriaeth yn golygu fod y gyfraith bellach yn cael ei hategu'n rheolaidd gan wybodaeth ychwanegol sy'n helpu wrth egluro effaith ac ystyr. Mae hyn yn arbennig o gyffredin o safbwynt deddfwriaeth (yn hytrach na'r gyfraith gyffredin), sef ffocws ein gwaith.

106. Mae'r cyfathrebu ychwanegol hwn naill ai'n cael ei ddarparu gan y wladwriaeth, gan sefydliadau trydydd sector megis clinigau cyngor, neu'r sector breifat (cyfreithwyr yn bennaf a chyhoeddwyr masnachol).

107. Ers peth amser, mae wedi bod yn arfer gan y Llywodraeth i gyhoeddi canllawiau ar effaith ymarferol deddfwriaeth. Prif amcan y dogfennau yma'n gyffredinol, yw sicrhau fod y polisi a weithredir gan y ddeddfwriaeth yn cael ei gyflawni'n llawn. Er y gall canllawiau roi esboniad defnyddiol, nid dyma'u prif ddiben. Mae'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddf neu Offeryn Statudol, fel yr awgryma'r enw, yn ceisio esbonio cynnwys deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r nodiadau hyn yn tueddu i fod yn dechnegol yn hytrach nag ymarferol eu ffocws, ac mae'u hansawdd a'u defnyddioldeb yn amrywio. Maent hefyd yn ffenomen gymharol ddiweddar.

108. Yn ymarferol felly, mae eglurhad a gwybodaeth mwy cyffredinol am newidiadau'n y gyfraith wedi bod yn rhywbeth a wnaed gan asiantaethau cynghori, gan gyfreithwyr neu gyhoeddwyr masnachol. Mae'n amlwg felly fod galw am wasanaethau sy'n helpu dinasyddion a chyfreithwyr i ddeall y gyfraith yn well, ond mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol nad yw'r galw bob amser yn cael ei fodloni. Mae nifer o resymau am hyn, gan gynnwys toriadau mewn cyllid i asiantaethau cynghori a'r cynnydd mewn diffyg cymorth cyfreithiol. Ymddengys hefyd fod cyhoeddwyr masnachol o'r farn nad yw'r farchnad ar gyfer llyfrau, gwyddoniaduron a chyfnodolion ar gyfraith Cymru'n ddigon mawr i fod yn fasnachol hyfyw.

109. Yn hanesyddol, roedd gan gyhoeddwyr masnachol rôl ryfeddol o bwysig wrth ddarparu gwybodaeth am y gyfraith yn y DU. Cyhoeddwyd 'Cyfreithiau Halsbury' er enghraifft am y tro cyntaf ym 1907 a 'Statudau Halsbury' ym 1929. Mae cyfreithwyr wedi dibynnu ers amser ar wasanaethau o'r fath i sicrhau'u bod yn caffael ac yn cynnal dealltwriaeth ddigonol o'r gyfraith. Dyma egluro efallai, paham nad oes cronfa ddata di-dâl, cynhwysfawr a chyfoes o ddeddfwriaeth ar-lein yn y DU wedi'i chyflawni eto. Er bod llawer (os nad y mwyafrif) o awdurdodaethau'r Gymanwlad wedi cyflawni hyn 20 mlynedd neu fwy yn ôl, mae'r cynnydd wrth ddatblygu 'cronfa ddata cyfraith statud' y DU wedi arafu, ac nid yw'r unig gronfa ddata di-dâl yn y DU (legislation.gov.uk) eto'n gwbl gyfredol.

110. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol, felly, o’r angen i ymateb a darparu rhagor o wybodaeth am gyfraith Cymru. Am y rheswm hwn yn rhannol, mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni gweithredu er mwyn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru gynnwys gweithgareddau i "*hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru*”.

111. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gwefan o’r enw Cyfraith Cymru/Law Wales i ddarparu sylwebaeth a naratif esboniadol am gyfraith Cymru. Fodd bynnag, mae’n waith sy’n mynd rhagddo, ac mae angen gwneud llawer mwy i’w wneud yn wefan cynhwysfawr. Mae datblygu cynnwys esboniadol y wefan ymhellach yn un o flaenoriaethau’r Llywodraeth, a bydd y wefan hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y broses o godeiddio’r ddeddfwriaeth a amlinellwyd uchod. Rhagwelwn y bydd y wefan yn cael ei ddefnyddio i ddod â’r holl "brif" ddeddfwriaeth sy’n ffurfio rhan o Gôd at ei gilydd. O ganlyniad, bydd y "Côd" yn borth hygyrch i’r ddeddfwriaeth a fydd yn parhau i gael ei gyhoeddi’n ffurfiol gan yr Archifdy Gwladol ar legislation.gov.uk.


112. Bydd testun esboniadol yn ymddangos gyda’r codau, gan roi eglurhad a sylwebaeth ar effaith y ddeddfwriaeth. Bydd datblygu’r testun esboniadol, fodd bynnag, yn dasg enfawr ac mae’r Llywodraeth yn credu y dylai hyn fod yn ymarfer ar y cyd. Gobeithiwn, felly, y bydd cyfreithwyr, academyddion cyfreithiol ac aelodau eraill o gymdeithas ddinesig yng Nghymru’n cyfrannu at y dasg.


113. Rydym hefyd wedi dechrau ymchwilio i sut y gall technoleg ddatblygol, megis technegau darllen peirianyddol a deallusrwydd artiffisial gynorthwyo. Yn yr hir dymor mae potensial i ddatblygu deddfwriaeth nid yn unig yn y Gymraeg a’r Saesneg ond hefyd mewn côd cyfrifiadurol, a fydd yn caniatáu datblygu teclyn cyfrifiadurol cymharol hawdd i gynorthwyo defnyddwyr deddfwriaeth. Er bod hwn yn faes cyffrous, dylem bwysleisio fod y gwaith mewn cyfnod datblygu cynnar iawn ar draws y Gymanwlad, ac nad oes disgwyl iddo fod yn rhan realistig o’r datrysiad am beth amser.


114. Wrth ddatblygu deunydd i helpu pobl i ddeall y gyfraith, yn naturiol, rydym yn awyddus i ddeall yr hyn y byddai defnyddwyr deddfwriaeth a’r rhai y mae angen cyngor arnynt yn buddio ohono.


**Cwestiwn 5: Pa weithgareddau gallai Llywodraeth Cymru ymgymryd â hwy neu eu cefnogi byddai’n eich helpu chi neu eraill i ddeall cyfraith Cymru'n well?**

## Atodiad A


Bwyd
Hylendid a diogelwch bwyd
Amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion
Amaethyddiaeth
Pysgodfeydd
Iechyd a lles anifeiliaid
Iechyd planhigion
Amrywogaethau a hadau planhigion
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Amgylchedd ac adnoddau naturiol
Newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd
Bywyd gwyllt a chadwraeth natur
Coedwigaeth
Cefn gwlad a mynediad i dir
Rheoli risg llifogydd ac amddiffyn yr arfordir
Gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth
Gwastraff
Morol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Codau Cyfraith Cymru
Deddfau
Offerynnau Statudol
Canllawiau


Diwylliant, chwaraeon ac amgylchedd hanesyddol
Henebion hanesyddol ac adeiladau o ddiddordeb pensaernïol
Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd
Chwaraeon a hamdden
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Datblygu economaidd a thwristiaeth
Datblygu ac adfywio economaidd
Hybu busnes
Twristiaeth
Cynllunio, adeiladu a thir
Cynllunio
Cydsyniadau seilwaith
Caffael tir a phrynu gorfodol
Rheoliadau adeiladu a rheolaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Codau Cyfraith Cymru
Deddfau
Offerynnau Statudol
Canllawiau
WG30521 © Crown copyright, Welsh Government 2018


Tai
Tenantiaethau preswyl
Cofrestru a thrwyddedu landlordiaid
Digartrefedd
Rheoleiddio a darparu tai cymdeithasol
Cartrefi symudol a charafanau
Tân ac achub
Gwasanaethau tân ac achub
Diogelwch tân
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Trafnidiaeth
Priffyrdd a gwaith stryd
Rheoli traffig ffyrdd a rheoleiddio
Gwasanaethau trafnidiaeth
Teithio llesol
Harbyrau
Addysg a sgiliau
Ysgolion ac addysg i blant
Addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant
Gweithlu addysg
Anghenion dysgu ychwanegol
Cymwysterau
Iechyd a gofal cymdeithasol
Iechyd cyhoeddus
Darparu a chyllido gwasanaethau iechyd
Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant
Proffesiynau
Rheoleiddio ac arolygu
Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Codau Cyfraith Cymru
Deddfau
Offerynnau Statudol
Canllawiau


Trethiant
Rheoli a chasglu trethi datganoledig
Treth trafodiadau tir
Treth gwarediadau tirlenwi
Y Gymraeg
Hybu'r iaith Gymraeg
Safonau'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Y Senedd a deddfwriaeth
Trefniadau etholiadol a gweinyddiaeth
Taliadau a safonau ymddygiad
Deddfwriaeth
Gweinyddiaeth gyhoeddus
Archwilio
Ombwdsmon
Ymchwiliadau
Cofnodion a gwybodaeth
Tribiwnlysoedd Cymru
Llywodraeth leol
Trefniadaeth a swyddogaethau
Cyllid
Trefniadau a gweinyddiaeth etholiadol
Cenedlaethau'r dyfodol
Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Codau Cyfraith Cymru
Deddfau
Offerynnau Statudol
Canllawiau

## Atodiad B

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| **Amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion** | |
| Amaethyddiaeth<br>Pysgodfeydd<br>Iechyd a lles anifeiliaid<br>Iechyd planhigion<br>Amrywogaethau a hadau planhigion | Agriculture Acts 1967 to 1993; Slaughter of Poultry Act 1967; Sea Fisheries (Shellfish) Act 1967; Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975; Plant Health Act 1967; Plant Varieties Act 1997; Animal Health Acts 1981 and 2002; Animal Welfare Act 2006; Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010; Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014; Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014. |
| **Bwyd** | |
| Hylendid a diogelwch bwyd | Food Safety Act 1990; Food Standards Act 1999; Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. |
| **Amgylchedd ac adnoddau naturiol** | |
| Newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd (gan gynnwys rheoli llygredd) | Environmental Protection Act 1990; Planning (Hazardous Substances) Act 1990; Environment Act 1995; Pollution Prevention and Control Act 1999; Waste and Emissions Trading Act 2003; Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005; National Parks and |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| Bywyd gwyllt a chadwraeth natur (gan gynnwys bioamrywiaeth a chynefinoedd)<br><br>Coedwigaeth<br><br>Cefn gwlad a mynediad i dir<br><br>Rheoli risg llifogydd ac amddiffyn yr arfordir<br><br>Gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth<br><br>Gwastraff<br><br>Morol | Access to the Countryside Act 1949; Forestry Act 1967; Countryside Act 1968; Conservation of Seals Act 1970; Wildlife and Countryside Act 1981; Deer Act 1991; Protection of Badgers Act 1992; Commons Acts 1899 and 2006; Commons Registration Act 1965; Countryside and Rights of Way Act 2000; Coast Protection Act 1949; Reservoirs Act 1975; Land Drainage Act 1991; Water Industry Act 1991; Water Resources Act 1991; Flood and Water Management Act 2010; Waters Acts 2003 and 2014; Marine and Coastal Access Act 2009 (parts); Mesur Gwastraff (Cymru) 2010; Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |

## Cynllunio, adeiladu a thir

| | |
|---|---|
| Cynllunio<br><br>Cydsyniadau seilwaith<br><br>Caffael tir a phrynu gorfodol<br><br>Rheoliadau adeiladau a rheolaeth | Town and Country Planning Act 1990; Planning (Consequential Provisions) Act 1990; Planning and Compulsory Purchase Act 2004; Planning Act 2008; Deddf Cynllunio (Cymru) 2015; Defective Premises Act 1972; Building Act 1984; Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. Compulsory Purchase Act 1965; Compulsory Purchase (Vesting Declarations) Act 1981; Acquisition of Land Act 1981; Housing and Planning Act 2016; Neighbourhood Planning Act 2017. |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| **Diwylliant, chwaraeon ac amgylchedd hanesyddol** | |
| Henebion hanesyddol ac adeiladau o ddiddordeb pensaernïol<br><br>Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd<br><br>Chwaraeon a hamdden | Protection of Wrecks Act 1973; Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979; Planning (Listed Buildings) Act 1990; Public Libraries and Museums Act 1964; Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010; Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. |
| **Datblygu economaidd a thwristiaeth** | |
| Datblygu ac adfywio economaidd<br><br>Hybu busnes<br><br>Twristiaeth | Development of Tourism Act 1969; Welsh Development Agency Act 1975. |
| **Addysg a Sgiliau** | |
| Ysgolion ac addysg i blant<br><br>Addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant<br><br>Gweithlu Addysg | Education Reform Act 1988; Further and Higher Education Act 1992; Education Acts 1996, 1997, 2002 and 2005; Learning and Skills Act 2000; Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (part); Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009; Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009; Mesur Addysg (Cymru) 2009 a 2011; Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; Deddf Addysg (Cymru) 2014; Deddf Addysg Uwch |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| Anghenion dysgu ychwanegol<br><br>Cymwysterau | (Cymru) 2015; Deddf Cymwysterau Cymru 2015; Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. |
| **Tân ac achub** | |
| Gwasanaethau tân ac achub<br><br>Diogelwch tân | Fire and Rescue Services Act 2004; Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005. |
| **Iechyd a gofal cymdeithasol** | |
| Iechyd cyhoeddus<br><br>Darparu a chyllido gwasanaethau iechyd<br><br>Gwasanaethau cymdeithasol a llesiant<br><br>Proffesiynau<br><br>Rheoleiddio ac arolygu<br><br>Comisiynwyr Plant a Phobl Hŷn | Mental Health Acts 1983 and 2007; Access to Health Records Act 1990; Tobacco Advertising and Promotion Act 2002; Health Act 2006; National Health Service (Wales) Act 2006; Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008; Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013; Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014; Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016; Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017; Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Children Acts 1989 and 2004; Care Standards Act 2000; Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003; Commissioner for Older People (Wales) Act 2006; Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| **Tai** | |
| Tenantiaethau preswyl<br><br>Cofrestru a thrwyddedu landlordiaid (gan gynnwys HMOs)<br><br>Digartrefedd<br><br>Rheoleiddio a darparu tai cymdeithasol<br><br>Cartrefi symudol a charafanau | Rent Act 1977; Protection from Eviction Act 1977; Housing Acts 1985, 1988, 1996 and 2004; Housing Associations Act 1985; Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996; Homelessness Act 2002; Mesur Tai (Cymru) 2011; Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013; Deddf Tai (Cymru) 2014; Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016; Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018; Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018. |
| **Trafnidiaeth** | |
| Priffyrdd a gwaith stryd<br><br>Rheoli traffig ffyrdd a rheoleiddio<br><br>Gwasanaethau trafnidiaeth (gan gynnwys bysiau a thacsis)<br><br>Teithio llesol<br><br>Harbyrau | Harbours Act 1964; Transport Acts 1968-2000; Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970; Highways Act 1980; Cycle Tracks Act 1984; Road Traffic Regulation Act 1984; New Roads and Street Works Act 1991; Road Traffic Reduction Act 1997; Local Transport Act 2008; Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| **Llywodraeth Leol** | |
| Trefniadaeth a swyddogaethau Llywodraeth leol<br><br>Cyllid Llywodraeth leol<br><br>Trefniadau a gweinyddiaeth etholiadol Llywodraeth leol | Local Government Acts 1972, 1986, 2000 and 2003; Local Authorities (Land) Act 1963; Local Authorities (Goods and Services) Act 1970; Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982; Local Government and Housing Act 1989; Deddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a 2015; Local Government (Contracts) Act 1997; Mesurau Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a 2011; Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012; Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013; Local Government Finance Acts 1988 and 1992. |
| **Gweinyddiaeth Gyhoeddus** | |
| Archwilio<br><br>Ombwdsmon<br><br>Ymchwiliadau<br><br>Cofnodion a gwybodaeth<br><br>Tribiwnlysoedd Cymru | Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013; Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005; Inquiries Act 2005; Freedom of Information Act 2000; provisions in various Acts establishing Welsh tribunals. |
| **Y Senedd a deddfwriaeth** | |
| Trefniadau etholiadol a gweinyddiaeth Y Senedd | |

| *Pynciau arfaethedig ar gyfer Deddfau* | *Enghreifftiau o ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei gynnwys yn y Cod* |
|---|---|
| Taliadau a safonau ymddygiad Aelodau'r Senedd<br><br>Deddfwriaeth (gwneud, ystyr, cyhoeddi) | Government of Wales Act 2006; Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009; Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010; Statutory Instruments Act 1946; Bil Deddfwriaeth (Cymru) 2018. |
| **Trethiant** | |
| Rheoli a chasglu trethi datganoledig<br><br>Treth trafodiadau tir<br><br>Treth gwarediadau tirlenwi | Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. |
| **Y Gymraeg** | |
| Hybu'r iaith Gymraeg<br><br>Safonau'r Gymraeg | Welsh Language Act 1993; Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| **Cenedlaethau'r dyfodol** | |
| Llesiant cenedlaethau'r dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

## Atodiad C: Ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo’n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1:** Gan gyfeirio at y tacsonomeg drafft yn Atodiad 1, a ydych yn cytuno â'r strwythur o bynciau ac is-bynciau a awgrymir?

**Cwestiwn 2:** A oes gennych unrhyw awgrymiadau er mwyn gwella'r tacsonomeg drafft hwn?

**Cwestiwn 3:** Yn eich barn chi, pa faes neu feysydd penodol o gyfraith ddatganoledig sydd angen eu cydgrynhoi fwyaf, a pham?

**Cwestian 4:** A ydych yn cytuno â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a’r dull arfaethedig o godeiddio cyfraith Cymru?

**Cwestiwn 5:** Pa weithgareddau gallai Llywodraeth Cymru ymgymryd â hwy neu eu cefnogi byddai’n eich helpu chi neu eraill i ddeall cyfraith Cymru'n well?

**Cwestiwn 6:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai categoreiddio, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru’n eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi’n rhagweld? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 7:** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall

categoreiddio, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- peidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma ☐